

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Abersychan, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 25 Chwefror 2026

Dyddiad cyhoeddi: 28 Mai 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Abersychan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 25 Chwefror 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur i ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi gwybod eu barn i ni am weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos drwy'r adroddiad cyfan.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Er bod gwybodaeth berthnasol am ofal iechyd y geg i'w chael ar wefan y practis, gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael yn y practis.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, gan gynnal urddas a pharch y cleifion drwy gydol yr arolygiad gyda'r drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac ymgynghoriadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gellid cynnal sgysiau cyfrinachol ar y grisiau, ac roeddem yn teimlo bod hynny'n amhriodol.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gorfod aros am gyfnodau byr am apwyntiadau dilynol a'u bod yn elwa ar broses i ailddyrrannu slotiau a gaiff eu canslo. Roedd apwyntiadau brys dyddiol yn galluogi'r practis i ddarparu gofal deintyddol brys, fel arfer ar yr un diwrnod.

Gwelsom y gellid darparu triniaethau gan ddefnyddio amrywiaeth o ieithoedd a siaredir gan y tîm deintyddol ond nid oedd y staff i weld yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a oedd ar gael yn y practis.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth ychwanegol am ofal iechyd y geg yn y practis
- Osgoi defnyddio'r grisiau a'r landin ar gyfer sgysiau cyfrinachol
- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu sydd ar gael.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Practis glân iawn yr olwg
- Roedd nodyn atgoffa mewn perthynas â hanes meddygol y claf yn cael ei arddangos.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, ac roedd archwiliadau diogelwch nwy a thrydanol wedi'u cynnal ac yn gyfredol. Roedd

trefniadau da ar gyfer diogelwch tân ar y cyfan, ond nid oedd un allanfa argyfwng yn cau'n llwyr heb ei thrin â llaw. Ymdriniwyd â hyn ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Roedd y practis yn lân iawn yr olwg. Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, ac roedd archwiliadau perthnasol wedi'u cynnal. Roedd prosesau dihalogi priodol ar waith, ac roedd y cyfarpar dihalogi yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd tystysgrif archwilio'r cynhwysydd gwasgedd ar gyfer un o'r awtoclafau ar goll; rhoddwyd y gorau i ddefnyddio hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad nes i'r ddeintyddfa gael tystysgrif ddilys.

Roedd cydymffurfiaeth dda o ran defnyddio pelydrau-X yn y practis. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed ac roedd tystiolaeth ar ffeil fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.

Gwelsom nad oedd rhai cyffuriau brys ar gael yn yr holl ddosau a argymhellir. Dywedwyd wrthym hefyd y ceir gwared ar gyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn y fferyllfa leol, ond nid oedd tystiolaeth i gadarnhau hyn.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn. Er bod trefniadau addas ar gyfer trin cofnodion digidol y cleifion yn ddiogel, nid oedd un cwpwrdd ffeilio a oedd yn cynnwys cofnodion papur yn cloi; symudwyd y cofnodion hyn i gwpwrdd arall y gellid ei gloi ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r broses ar gyfer gwirio cyffuriau brys i sicrhau bod y dosau cywir ar gael bob amser
- Rhoi system ar waith i gyfrif am yr holl feddyginiaethau nas defnyddiwyd a waredir yn y fferyllfa
- Rhoi system ar waith i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau
- Gwneud cofnod o ddewis iaith y cleifion yn eu cofnodion.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd trefniadau diogelwch tân da ar waith
- Roedd y ffeil Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn dda iawn
- Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli clir ar waith. Roedd yr uwch-reolwyr yn agored ac roedd yn hawdd i'r staff fynd atynt. Gwelsom drefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff.

Roedd ystod dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd ar gael yn hawdd i'r staff, ond roedd angen i'r rhain gael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Roedd gan y practis gymysgedd sgiliau priodol ymhlith y staff, gyda phroses sefydlu gadarn, cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant ac arfarniadau rheolaidd. Dywedodd y staff fod adnoddau digonol ar gael. Roedd gwiriadau recriwtio ar waith, ond roedd dau wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn aros i gael eu cwblhau.

Roedd prosesau addas ar gyfer cael adborth gan y cleifion ac roedd awgrymiadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Roedd ymchwiliadau i gwynion yn cael eu cofnodi ond roedd angen i'r rhain fod yn fwy cynhwysfawr.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, gan gynnwys rhai materion etifeddol, ar y cyfan roeddem o'r farn bod y practis wedi gwella'n sylweddol ers arolygiad blaenorol AGIC.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi system ar waith sy'n nodi'n glir pa bolisiau y mae'r staff wedi cadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall
- Datblygu polisi recriwtio staff addas
- Sicrhau bod cofnod llawn o bob cwyn yn cael ei ddogfennu a'i gadw
- Gwneud trefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion i'r sefydliadau perthnasol.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant staff
- Roedd rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu rheoli'n dda
- Proses sefydlu dda a oedd wedi'i dogfennu'n llawn a'i chymeradwyo
- Roedd y cleifion yn cael gwybod am ganlyniadau eu hadborth drwy ddefnyddio hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r saith ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae deintyddfa Abersychan yn bractis hyfryd. Mae'r staff yn wych a'r derbynnydd yn barod i helpu... Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a bob amser yn groesawgar"

"Rwy'n hapus â'r practis. Staff cyfeillgar."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol am ofal iechyd ar wefan y practis, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, canser y geg a deintgig iach. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth am ofal iechyd y geg a oedd ar gael yn yr ardaloedd aros neu yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau y bydd yn eu cymryd i roi cyngor gofal iechyd perthnasol pellach i'r cleifion.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn ogystal ag egwyddorion moesegol craidd y Cyngor wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros ac roedd ffioedd am driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, a phroses gwyno'r practis hefyd i'w gweld yno.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roedd y ddwy ddogfen ar gael ar wefan y practis.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio iechyd y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall, a

dywedodd y rhan fwyaf wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais, yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion â pharch. Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn groesawgar iawn ac yn ystyriol o anghenion y cleifion. Gwelsom fod cytundebau cyfrinachedd wedi'u cynnwys fel atodiadau yn ffolderi personol y staff y gwnaethom edrych arnynt.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau pan oedd y deintyddion yn trin y cleifion, a bod gorchuddion addas ar y ffenestri er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros ar y llawr gwaelod yn yr un ystafell, ac roedd ail ystafell aros ar y llawr cyntaf. Roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth ddelio â nhw. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau sensitif naill ai'n cael eu cynnal mewn deintyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio neu ar y grisiau. Yn yr arolygiad blaenorol, gwnaethom fynegi pryderon nad oedd y grisiau'n briodol at y diben hwn am resymau preifatrwydd a diogelwch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff y grisiau na'r landin eu defnyddio ar gyfer sgysiau cyfrinachol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi ateb eu cwestiynau. Roedd pawb yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hyn. Cytunodd pawb fod eu hanes meddygol wedi'i wirio a bod costau wedi'u hegluro cyn dechrau triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa neu'r nyrsys yn rhoi gwybod i'r cleifion os oedd unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros rhwng triniaethau yn fyr a bod apwyntiadau dilynol yn cael eu cynnig i'r

cleifion o fewn pythefnos fel rheol. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i gynnig unrhyw apwyntiadau a oedd yn cael eu canslo i gleifion a oedd yn aros am driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod dau slot ar gyfer apwyntiadau brys yn cael eu cadw bob dydd ar gyfer pob deintydd er mwyn bodloni ceisiadau am driniaeth frys. Roedd modd cael y rhain drwy ffonio'r practis ar unwaith gyda'r nod o weld cleifion ar yr un diwrnod fel arfer, neu o fewn 24 awr fan bellaf.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos y tu allan i'r safle ac ar wefan y practis. Roedd y rhain yn cynnwys amseroedd agor cynharach ar ddydd Mercher ac amseroedd hwyrach ar ddydd lau er mwyn rhoi hyblygrwydd i gleifion. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen triniaeth arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn y practis yn Saesneg yn bennaf ac roedd swm cyfyngedig o ddeunydd dwyieithog ar gael. Gwelsom nad oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer caffael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddarparu. Nodwyd bod hwn yn fater a godwyd yn yr arolygiad blaenorol. Trefnodd rheolwr y practis i arwyddion priodol gael eu harddangos yn ystod yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod aelodau o staff a allai ddarparu triniaeth gan ddefnyddio sawl iaith heblaw Saesneg, fel Bwlgareg a Phwyleg. Er bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i gleifion yr oedd angen ieithoedd eraill arnynt, roedd yn ymddangos nad oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn, gan ddefnyddio apiau cyfieithu ffôn clyfar yn lle hynny. Gwnaethom drafod pa mor anaddas yw'r apiau hyn at ddibenion meddygol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion iaith.

Mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu

triniaeth. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i drefnu apwyntiadau ar-lein, ond nid oedd ar waith ar adeg yr arolygiad.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yn y practis ynghyd â pholisi cyfle cyfartal a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar aflonyddu a gwahaniaethu. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y pynciau hyn. Gwnaeth y staff ddisgrifio trefniadau addas ar gyfer cleifion trawsryweddol a oedd yn cydnabod hawliau ac anghenion y grŵp cleifion hwn.

Cadarnhaodd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi profi unrhyw achosion o wahaniaethu yn y practis.

Gwelsom fod mynediad gwastad i adeilad y practis gyda deintyddfa ar y llawr gwaelod, gan alluogi triniaeth hwylus i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwelsom fod y toiled i gleifion yn lân, yn cynnwys eitemau addas ac wedi'i addurno i safon uchel. Gan fod hwn wedi'i leoli ar y llawr cyntaf, gwelsom fod canllawiau wedi'u gosod i gynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, nid oedd toiled y cleifion yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ac roedd hyn wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda deintyddfeydd mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda. Y tu mewn i'r adeilad, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda ac roedd yr ardaloedd aros i gleifion yn gyfforddus heb unrhyw beryglon. Roedd polisi ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben. Gwnaethom nodi bod crac mawr a ganfuwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi cael ei atgyweirio'n addas. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd mecanwaith cau drws yr allanfa dân ar yr islawr yn gweithio'n iawn heb ei drin â llaw, a allai olygu bod y fynedfa gefn yn anniogel. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y problemau a nodwyd gennym, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd gan y practis gynllun argyfwng a pharhad busnes, ynghyd â rhestr o gysylltiadau brys a'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu gwasanaethau deintyddol yn sgil argyfwng neu drychineb. Gwelsom bolisiau cyfredol yn ymwneud ag asesu a rheoli risgiau ac iechyd a diogelwch cleifion a staff yn y practis. Roedd trefniadau addas i'r staff newid eu dillad a storio eu heiddo personol yn ddiogel.

Dangoswyd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol cyfredol i ni, a gaiff ei gwblhau bob pum mlynedd, cofnodion Profion Offer Cludadwy cyfredol a thystysgrif diogelwch nwy flynyddol ddilys. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol.

Ar wahân i'r allanfa dân ddiffygiol, gwelsom fod gan y practis drefniadau da ar waith mewn perthynas â diogelwch tân, gydag asesiad risg tân wedi'i gwblhau a thystiolaeth bod argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith a'u cymeradwyo. Gwelsom dystiolaeth bod profion larwm rheolaidd ac ymarferion gwagio'r adeilad wedi cael eu cwblhau. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf..

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu'n addas fel y gellid eu glanhau'n effeithiol. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael yn y deintyddfeydd, yr ystafell ddihalogi ac yn y toiledau. Roedd amserlenni glanhau yn

cael eu defnyddio i gefnogi arferion glanhau effeithiol, a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i'r staff.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol a phriodol ar waith, a oedd yn cynnwys enw'r arweinydd dynodedig. Gwelsom fod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y pwnc hwn.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ar gyfer anafiadau a achoswyd gan offer miniog gyda chefnogaeth briodol gan ei adran iechyd galwedigaethol leol. Gwelsom fod chwistrellau Safety Plus yn cael eu defnyddio a bod siartiau llif ar gyfer anafiadau a achoswyd gan offer miniog ar gael i gyfeirio atynt yn gyflym ym mhob deintyddfa i helpu'r staff pe bai digwyddiad â nodwydd yn codi.

Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ddynodedig ac roedd trefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddiol aml dro. Roedd system addas i gludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth o waith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi er bod y dystysgrif archwilio cynhwysydd gwasgedd ddiweddaraf ar gyfer un o'r ddau awtoclaf ar goll, sy'n golygu nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd y peiriannydd wedi ystyried ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y problemau a nodwyd gennym, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd contractau ar waith i drosglwyddo gwastraff clinigol a domestig yn ddiogel o'r practis. Gwelsom fod gwastraff clinigol a gynhyrchwyd gan y practis yn cael ei storio'n addas nes iddo gael ei gasglu.

Gwelsom fod ffeil Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) y practis yn cael ei rheoli'n dda iawn, gyda pholisi cyfredol, asesiad risg a rhestr gynhwysfawr o daflenni data ar gyfer y cemegion a ddefnyddir. Gwelsom fod y cemegion yn cael eu storio'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu defnyddio yn y practis, heblaw am gyffuriau brys a oedd yn cael eu rheoli o dan weithdrefnau brys y practis. Gwelwyd bod y rhain yn cael eu storio'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond mewn dosau ar gyfer pobl 10 oed a throsodd yr oedd midazolam ar

gael, ac nid oedd aspirin gwasgaradwy ar gael yn y dos a argymhellir 'chwaith. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig, a archebodd yr eitemau cywir ar adeg yr arolygiad. Rhoddwyd cynllun wrth gefn ar waith mewn perthynas â'r midazolam nes i'r stoc newydd gyrraedd. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y problemau a nodwyd gennym, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r broses o gynnal gwiriadau cyffuriau er mwyn sicrhau bod y cyfarpar brys gofynnol bob amser ar gael, a hynny yn y dosau cywir.

Dywedwyd wrthym fod cyffuriau brys nas defnyddiwyd a'r rhai y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu drwy'r fferyllfa leol er nad oedd unrhyw gofnodion na derbynebaw i ddangos tystiolaeth o hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi cyfrif am yr holl feddyginiaethau heb eu defnyddio a waredir yn y fferyllfa.

Gwelsom fod hysbysiadau wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw system ar waith i roi gwybod am adweithiau niweidiol i feddyginiaethau, ac nid oedd y staff yn gwybod am y cynllun Cerdyn Melyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn argyfwng yn y practis. Er nad oedd y padiau diffibriliwr pediatrig yn bresennol, roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio padiau oedolion ar blant. Nodwyd gennym fod pedwar o'r pum maint a argymhellir ar gyfer masgiau wyneb clir a'r peiriant sugno cludadwy a ddylai fod yn rhan o'r cyfarpar brys ar goll. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig ar unwaith, a archebodd y cyfarpar coll yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys y padiau diffibriliwr pediatrig. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y problemau a nodwyd gennym, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu ar gyfer y silindr ocsigen wedi cael ei gynnal a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w ddefnyddio. Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a oedd yn cynnwys yr eitemau priodol ac roedd yr holl eitemau hynny yn gyfredol. Roedd gan y practis nifer priodol o staff a oedd wedi'u hyfforddi i ddarparu cymorth cyntaf a gwnaethom

gadarnhau bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar clinigol i weld yn lân ac mewn cyflwr da gyda threfniadau priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion o gyfarpar yn methu.

Roedd gweithdrefnau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, gan gynnwys gwirio hunaniaeth yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ef a darparu gwybodaeth am risgiau a manteision pelydrau-X. Gwelsom fod asesiad risg ymbelydredd wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod arwyddion priodol yn cael eu harddangos ar ddrws pob deintyddfa. Er bod dogfennaeth yn cadarnhau bod gwaith cynnal a chadw, profion ac archwiliadau radiograffeg wedi'u cwblhau mewn perthynas â'r cyfarpar pelydr-X, nid oedd y cofnodion hyn wedi'u crynhoi mewn ffeil radiograffeg gyflawn. Gwnaethom drafod budd cadw ffolder radiograffeg gynhwysfawr a defnyddio offeryn Gwella Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio fel arfer da.

Gwnaethom wirio ffeiliau'r staff a gwelsom fod y staff a oedd yn defnyddio'r cyfarpar pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis bolisi cyfredol ac addas mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol perthnasol. Gwnaethom drafod manteision gosod siartiau llif diogelu i gyfeirio atynt yn gyflym ym mhob deintyddfa er mwyn eu defnyddio'n hawdd os bydd pryder.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi'i benodi a fyddai'n rhoi cymorth ac arweiniad i'r staff pe bai ganddynt bryder ynghylch diogelu ac roedd y fersiwn ddiweddaraf o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i bawb. Dywedwyd wrthym fod cymorth llesiant ar gael i'r staff drwy dîm iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd a bod cymorth pellach ar gael drwy ei ddarparwr hyfforddiant.

Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar wybodaeth mewn perthynas â phrosesau amddiffyn plant ac oedolion.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roeddem o'r farn bod digon o staff yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y canllawiau statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gofal deintyddol. Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir, fel yr argymhellir.

Cofnodion cleifion

Roedd systemau addas ar waith i sicrhau bod cofnodion digidol cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel, gyda chofnodion yn cael eu cadw yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd modd cloi un o'r unedau ffeiliau diogel lle roedd cofnodion papur hŷn yn cael eu storio, gan beri risg i ddata cyfrinachol y cleifion. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig ar unwaith a drefnodd i'r ffeiliau gael eu symud i uned arall yr oedd modd ei chloi. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y problemau a nodwyd gennym, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol pum claf. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn glir ac o safon uchel ar y cyfan. Roedd pob cofnod yn cynnwys dynodyddion cleifion addas ac roedd hanes meddygol yn cael ei wirio a chydysniad ar sail gwybodaeth yn cael ei gofnodi ym mhob apwyntiad. Roedd tystiolaeth o brofion sgrinio canser y geg yn cael ei chofnodi a gwelsom fod triniaethau wedi'u cynllunio'n llawn ym mhob un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi mewn unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Gallai hyn atal y broses o ddarparu gofal effeithiol a gofal sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd hi'n siomedig nodi mai dyma'r un sefyllfa ag a ganfuwyd yn yr arolygiad blaenorol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safonau ansawdd y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y practis yn cyflogi therapyddion a hylenwyr i gynnig opsiynau gofal ychwanegol a phrofiad gwell i gleifion. Dywedwyd wrthym mai'r therapyddion oedd yn cynnal y rhan fwyaf o archwiliadau a bod unrhyw beth y tu allan i'w maes ymarfer yn cael ei atgyfeirio at y deintydd.

Roeddem o'r farn bod y broses atgyfeirio yn cael ei rheoli'n effeithiol ac roedd diweddariadau ynghylch atgyfeiriadau yn cael eu hanfon i gyfrif e-bost y practis a oedd yn cael ei fonitro'n ddyddiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd chwe aelod o'r staff i holiadur AGIC ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau yn ymwneud ag urddas y cleifion a llesiant y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i'r cleifion ac yn fodlon mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol.

Yr unig sylw a gawsom gan y staff oedd:

“Mae Deintyddfa Abersychan yn lle gwych i weithio ynddo. Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth rwy'n ei chael gan y rheolwyr ac rwy'n ffodus i weithio gyda chydweithwyr hyfryd. Rydym wir yn dîm da.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith, gyda'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chymorth tîm ehangach y practis. Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y rheolwyr yn agored ac yn hawdd mynd atynt.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a hysbysiadau diogelwch brys â'r staff. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a dywedwyd wrthym fod y rhain ar gael yn y dderbynfa i unrhyw staff nad oeddent yn bresennol. Gwnaethom drafod ychwanegu eitemau agenda a chynlluniau gweithredu at y cofnodion i'w gwella ymhellach ac awgrymwyd bod y staff yn eu llofnodi i gadarnhau eu bod wedi'u darllen.

Roedd amrywiaeth dda o bolisiau ar gael i gefnogi'r staff yn eu rolau. Roedd yr holl bolisiau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd, a gofynnwyd i'r staff lofnodi cofrestr yn cadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Fodd bynnag, nid oedd y daflen lofnodion yn nodi'n glir pa bolisiau yr oedd y staff wedi'u darllen.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith sy'n dangos yn glir pa bolisiau y mae'r staff wedi'u darllen a'u deall.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith, bod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a'u bod yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedodd pob un ohonynt y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Mae tri deintydd, dau therapydd, dau hyleneidd a phum nyrs ddeintyddol yn nhîm y practis. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwelsom fod polisi sefydlu addas ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r practis a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rôl. Gwelsom fod y broses hon wedi'i dogfennu'n llawn a'i chymeradwyo gan y goruchwylydd. Nid oedd y practis yn gallu darparu polisi recriwtio i ni ar adeg yr arolygiad a ddylai nodi'r gofynion mewn perthynas â chyflogi a chadw staff yn y practis deintyddol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi recriwtio staff addas a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond roedd dau yn aros i gael eu cwblhau. Gwnaethom drafod y syniad o gael datganiad blynyddol gan y staff i gadarnhau na fu unrhyw newidiadau i'w statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd tystiolaeth bod yswiriant indemniad, cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac imiwnedd rhag Hepatitis B ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r gweithlu yn cael ei monitro gan dîm rheoli'r practis.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol pellach ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau, gan gynnwys gweithrediad diogel silindrau ocsigen CD. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant yn cael ei fonitro gan reolwr y practis a gwnaethom drafod gweithredu matrices hyfforddiant i symleiddio'r broses hon. Roedd tystiolaeth yn ffeiliau'r staff a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi cael arfarniadau blynyddol.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd holiadur AGIC fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Dywedodd pob un fod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis.

Roedd pum aelod o'r staff yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl ac roedd yr aelod arall o'r staff yn cytuno'n rhannol. Cadarnhaodd pob un ohonynt eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Cafodd trefniadau eu disgrifio ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis gan gynnwys drwy wefan y practis neu'r blwch awgrymiadau a oedd ar gael yn yr ardal aros. Dywedwyd wrthym am gynlluniau i roi system cod QR ar waith ar gyfer adborth fel rhan o welliannau ansawdd y practis. Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm, a gwelsom fod hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i gleifion, a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau gweithredu a oedd yn deillio o'r adborth hwnnw.

Roedd gweithdrefn gwyno addas y practis i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer cydnabod a datrys cwynion ac yn nodi pa aelod o staff oedd yn gyfrifol am ymdrin â'r cwynion. Wrth adolygu'r ffeil gwynion, gwelsom fod nifer y cwynion yn gyfystyr ag un neu ddwy o gwynion y flwyddyn. Er bod y rhain wedi'u cofnodi, gwelsom nad oeddent yn cynnwys llawer o fanylion am yr ymchwiliad a gynhaliwyd, ac roedd cyfathrebiadau fel negeseuon e-bost ar goll.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnod llawn o bob cwyn yn cael ei ddogfennu a'i gadw, gan gynnwys manylion yr ymchwiliadau a'u canlyniadau.

Roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd addas. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn yn ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau cyfrifiadurol i reoli cofnodion y cleifion a chofnodion hyfforddiant y staff. Gwelsom fod polisiau priodol ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer trin gwybodaeth cleifion a staff yn ddiogel.

Gwelsom nad oedd gan y practis broses i roi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion ond y byddai'n dilyn canllawiau ar ei feddalwedd gydymffurfio pe bai digwyddiad o'r fath yn codi. Gwnaethom drafod a dangos pyrth

Datix Cymru ac AGIC ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau fel dulliau priodol o roi gwybod am ddigwyddiadau i'r GIG ac AGIC, yn y drefn honno.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion i'r sefydliadau perthnasol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd cynllun da ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Rhoddwyd enghreifftiau i ni a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar gan gynnwys cadw cofnodion, presgripsiynu gwrthficrobaidd a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod canllawiau wedi'u gosod yn dilyn archwiliad o fynediad i bobl anabl. Gwnaethom drafod y posibilrwydd o gynnwys archwiliadau gwastraff clinigol a rhoi'r gorau i smygu fel rhan o raglen archwilio arfaethedig y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio offer ac adnoddau gwella ansawdd a gydnabyddir gan y diwydiant, fel y *Matrics Aeddfedrwydd* ar gyfer *Deintyddiaeth (MMD)* a'r *Adnodd Hunanwerthuso* ar gyfer *Optimeiddio Sgiliau (SOSET)* yn ogystal â'r *Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd (QAS)* blynyddol i helpu i wella safonau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Er nad oedd y practis yn rhan o glwstwr gofal iechyd lleol, dywedwyd wrthym fod gan y practis gyberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill yn yr ardal leol, gan gynnwys system atgyfeirio electronig. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio systemau rheoli NHS *Compass* ac *eDEN* yn wythnosol i helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon i'r gymuned.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd mecanwaith cau drws yr allanfa dân ar yr islawr yn gweithio'n iawn heb ei drin â llaw.	Gallai hyn olygu bod cefn y safle yn annïogel, gan roi mynediad heb awdurdod i ardaloedd staff yn unig.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.	Cafodd gwaith cynnal a chadw adferol ei drefnu a chafodd ei gwblhau y diwrnod canlynol.
Roedd y dystysgrif ddiweddaraf ar gyfer archwilio cynhwysydd gwasgedd un o'r awtoclafau ar goll.	Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod yr awtoclaf hwn yn cael ei ystyried yn ddiogel i'w ddefnyddio gan y peiriannydd.	Gwnaethom argymhell y dylai'r practis roi'r gorau i ddefnyddio'r awtoclaf hwn ar unwaith.	Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r awtoclaf nes bod modd darparu'r dystysgrif i AGIC.
Dim ond mewn dosau ar gyfer pobl 10 oed a throsodd yr oedd midazolam ar gael, ac nid oedd aspirin gwasgaradwy ar gael yn y dos a argymhellir 'chwaith.	Gallai fod risg i gleifion ac ymwelwyr â'r safle pe bai argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.	Archebwyd eitemau newydd yn ystod yr arolygiad. Rhoddwyd cynllun wrth gefn ar waith mewn perthynas â'r midazolam nes i'r stoc newydd gyrraedd.

<p>Roedd pedwar o'r pum maint a argymhellir ar gyfer masgiau wyneb clir a'r peiriant sugno cludadwy a ddylai fod yn rhan o'r cyfarpar brys ar goll.</p>	<p>Gallai fod risg i gleifion ac ymwelwyr â'r safle pe bai argyfwng.</p>	<p>Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.</p>	<p>Archebwyd eitemau newydd yn ystod yr arolygiad.</p>
<p>Nid oedd un o'r unedau ffeiliau diogel a oedd yn storio cofnodion papur hŷn yn cloi.</p>	<p>Roedd hyn yn peri risg o golli data cyfrinachol cleifion neu fynediad heb awdurdod.</p>	<p>Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.</p>	<p>Symudwyd y ffeiliau i uned ffeiliau arall yr oedd modd ei chloi.</p>

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Abersychan

Dyddiad yr arolygiad: 25 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw broblemau o ran diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Abersychan

Dyddiad yr arolygiad: 25 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Prin oedd y wybodaeth am ofal iechyd y geg a oedd ar gael yn yr ardaloedd aros neu yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i roi cyngor gofal iechyd perthnasol pellach i'r cleifion.	Safon Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Mae taflenni a phosteri gofal iechyd y geg cyfredol wedi'u gosod ym mhob ardal aros i gleifion. Caiff y rhain eu hadolygu a'u hail-stocio'n rheolaidd gan y staff i sicrhau bod gwybodaeth iechyd berthnasol ar gael i'r cleifion bob amser.	Milena Ivanova	Wedi'i gwblhau
2.	Dywedwyd wrthym fod trafodaethau sensitif naill ai'n cael eu cynnal mewn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff y grisiau na'r landin	Safon Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Rheoliad 13(9)(c)	Mae'r holl staff wedi cael cyfarwyddyd ac wedi cael eu hatgoffa drwy gyfarfodydd tîm	Carys Powell	Wedi'i gwblhau

	deintyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio neu ar y grisiau.	eu defnyddio ar gyfer sgysiau cyfrinachol.		a chyfathrebiadau mewnol mai dim ond mewn ystafelloedd preifat dynodedig y dylid cynnal sgysiau cyfrinachol. Bydd Rheolwr y Practis yn monitro cydymffurfiaeth.		
3.	Er bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i gleifion, roedd yn ymddangos nad oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion iaith.	Rheoliad 13(1)(a)	Mae'r holl staff wedi cael gwybod bod gwasanaethau cyfieithu ar gael drwy hyfforddiant a chyfathrebu mewnol. Mae canllawiau ar sut i gael mynediad at y gwasanaeth a'i ddefnyddio bellach wedi'u cynnwys ym mhrotocolau'r staff. Dylid sicrhau ei fod yn cael ei gynnig yn gyson i'r cleifion pan fo angen a'i nodi ar ein system feddalwedd.	Carys Powell	Wedi'i gwblhau

4.	Nid oedd cyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn y dosau a argymhellir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r broses o gynnal gwiriadau cyffuriau er mwyn sicrhau bod y cyfarpar brys gofynnol bob amser ar gael, a hynny yn y dosau cywir.	Rheoliad 13(4)(b)	Archebwyd y cyffur brys coll hwn ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad ac mae wedi'i ychwanegu at y pecyn cyffuriau brys yn y dos cywir a argymhellir. Mae system wirio ffurfiol wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl feddyginiaeth frys yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac ar gael bob amser yn y dosau cywir.	Michelle Bradley	Wedi'i gwblhau
5.	Roedd cyffuriau brys nas defnyddiwyd a'r rhai yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu drwy'r fferyllfa leol er nad oedd unrhyw gofnodion na derbynebau'n cael eu cadw.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i roi cyfrif am yr holl feddyginiaethau heb eu defnyddio a waredir yn y fferyllfa.	Rheoliad 13(4)(a)	Mae system bellach wedi'i rhoi ar waith i gofnodi'r holl feddyginiaethau nas defnyddiwyd a'r rhai y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio a waredir drwy'r fferyllfa. Mae rhestr wirio ar waith a chaiff derbynebau eu cadw ar gyfer pob	Michelle Bradley	Wedi'i gwblhau

				gwarediad er mwyn sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth lawn.		
6.	Nid oedd unrhyw system ar waith i roi gwybod am adweithiau niweidiol i feddyginiaethau, ac nid oedd y staff yn gwybod am y cynllun Cerdyn Melyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau.	Rheoliad 13(4)(e)	Mae system ffurfiol bellach wedi'i rhoi ar waith ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i feddyginiaethau, gan gynnwys defnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ac arweiniad i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a'u bod yn gallu nodi, cofnodi a rhoi gwybod am adweithiau niweidiol yn briodol. Mae proses fonitro barhaus ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	Carys Powell	Wedi'i gwblhau
7.	Nid oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn unrhyw un o gofnodion	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei	Rheoliad 13(1)(a)	Mae'r system gyfrifiadurol wedi'i diweddarau i sicrhau	Michelle Gunter Ceri Gibs	Parhaus

	y cleifion y gwnaethom edrych arnynt.	gofnodi yng nghofnodion y cleifion.		bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion. Bellach, gofynnir i gleifion am eu dewis iaith fel mater o drefn wrth gofrestru ac yn ystod apwyntiadau a chaiff y wybodaeth hon ei dogfennu'n gyson er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.		
8.	Roedd taflen lofnodi'r gofrestr polisiau yn rhy gyffredinol, felly ni allem ddweud pa bolisiau yr oedd y staff wedi wedi'u darllen.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith sy'n dangos yn glir pa bolisiau y mae'r staff wedi'u darllen a'u deall.	Rheoliad 8	Mae system ddiwygiedig wedi'i rhoi ar waith i gofnodi'n glir pa bolisiau y mae pob aelod o'r staff wedi'u darllen a'u deall. Mae bellach yn ofynnol i bob aelod o'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi adolygu pob polisi unigol a chedwir	Carys Powell	Wedi'i gwblhau

				cofnodion i ddarparu tystiolaeth glir o gydymffurfiaeth a dealltwriaeth.		
9.	Ni allai'r practis ddarparu polisi recriwtio i ni.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi recriwtio staff addas a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheoliad 8(1)(h)	Mae polisi recriwtio staff cynhwysfawr bellach wedi'i ddatblygu i sicrhau yr eir ati i recriwtio mewn ffordd gyson a chadarn. Mae'r polisi'n amlinellu gweithdrefnau clir ar gyfer fetio ymgeiswyr a darparu'r broses gynefino, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio.	Carys Powell	Wedi'i gwblhau
10.	Er bod cwynion yn cael eu cofnodi, nid oeddent yn cynnwys llawer o fanylion am yr ymchwiliad a gynhaliwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnod llawn o bob cwyn yn cael ei ddogfennu a'i gadw, gan gynnwys manylion yr ymchwiliadau a'u canlyniadau.	Rheoliad 21(5)	Bydd pob cwyn bellach yn cynnwys dogfennaeth llawn o'r ymchwiliad a'r canlyniad.	Carys Powell	Wedi'i gwblhau
11.	Nid oedd gan y practis broses ar waith i roi gwybod am	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau priodol ar gyfer	Safon Ansawdd - Rheoli Gwybodaeth a Rheoliad 25	Mae gweithdrefn ffurfiol ar gyfer rhoi gwybod am	Carys Powell	Wedi'i gwblhau

ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion.

rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion i'r sefydliadau perthnasol.

ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion bellach wedi'i rhoi ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod pob digwyddiad yn destun ymchwiliadau a gofnodir yn briodol, yn unol â gofynion rheoleiddio. Mae'r broses yn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus o fewn y practis.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Olga SIVOVA

Swydd: Perchennog

Dyddiad: 15/04/2026